



Diweddariad ar eich cwyn cyllid modur

Gorffennaf 2026

Rydym yn ymwybodol fod nifer o bobl wedi bod yn aros am amser hir i'w cwynion cyllid modur gael eu datrys. Mae'r diweddariad hwn yn egluro beth sydd wedi digwydd a beth mae'n ei olygu i chi. Gan eich bod wedi cwyno yn barod does dim angen i chi wneud dim byd pellach am y tro.

Rydym wedi sefydlu cynllun iawndal fel y ffordd orau i ddigolledu miliynau o bobl na dderbyniodd wybodaeth bwysig am eu bargeinion cyllid modur.

Mae'r cynllun wedi cael ei herio yn gyfreithiol gan Consumer Voice, a gynrychiolir gan Courmacs Legal Ltd, a gan dri benthyciwr: Volkswagen Financial Services, Mercedes Benz Financial Services, a Crédit Agricole Auto Finance. Mae hyn wedi oedi taliadau oedd i fod i ddechrau eleni.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn unrhyw iawndal sy'n ddyledus cyn gynted â phosibl a byddwn yn amddiffyn y cynllun yn gadarn.



Beth mae hyn yn ei olygu i chi

Mae disgwyl i'r her gael ei chlywed unai yn Rhagfyr 2026 neu Chwefror 2027, gyda disgwyl dyfarniad yn y misoedd canlynol.

Hyd nes y daw'r broses gyfreithiol i ben, nid oes angen i fenthycwyr gyfrifo neu dalu iawndal i bobl o dan y cynllun.

Os caiff y cynllun ei amddiffyn, ac na chaiff ei apelio, rydym yn disgwyl i daliadau o dan y cynllun gychwyn yn 2027. Byddai'n rhaid i fenthycwyr ddilyn rheolau'r cynllun a byddwn yn eu goruchwyllo'n agos i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Os ydych yn teimlo nad yw eich benthyciwr wedi dilyn y rheolau, gallwch ofyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol adolygu'r penderfyniad.

Os caiff y cynllun ei wyrddroi yn llawn neu yn rhannol, bydd angen i ni benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Cynllun iawndal yw'r ffordd symlaf i ddefnyddwyr a'r ffordd fwyaf effeithlon i fenthycwyr wneud yn iawn. Fodd bynnag, gall cynllun diwygiedig wynebu her gyfreithiol pellach, gan ohirio iawndal tan 2028 a thu hwnt.

Rydym eisiau sicrhau iawndal teg i ddefnyddwyr cyn gynted â phosibl. Os caiff y cynllun ei wyrddroi, efallai y byddwn yn gofyn i fenthycwyr ddatrys cwynion yn unigol o dan y broses gwyno arferol yn lle. Byddai angen i fenthycwyr ymateb o fewn 8 wythnos, a gallwch fynd at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol os ydych yn credu nad ydych wedi cael eich trin yn deg.



Os nad oes iawndal yn ddyledus i chi

Yn y cyfamser, mae'n rhaid i fenthycwyr roi gwybod i chi os ydych wedi cwyno ac nad oes iawndal yn ddyledus i chi o dan y cynllun, oni bai:

- bod eich benthyciwr yn credu bod eich cwyn allan o amser.
- bod eich cwyn yn ymwneud â chysylltiad cytundebol ac mae'r benthyciwr yn dweud

nad oes iawndal yn ddyledus i chi oherwydd bod cysylltiad gweladwy rhwng y benthyciwr, y gwneuthurwr a'r deliwr masnachfaint, er enghraifft oherwydd eu bod yn rhannu enw cyffredin neu debyg.

Mae'r materion hyn yn rhan o'r her gyfreithiol.



Os gwnaethoch gwyno erbyn y dyddiad perthnasol isod ac nad oes iawndal yn ddyledus i chi o dan y cynllun, dylai eich benthyciwr roi gwybod i chi erbyn:

- **18 Tachwedd 2026**, os dechreuodd eich cytundeb ar neu ar ôl **1 Ebrill 2014** a'ch bod wedi cwyno erbyn **30 Mehefin 2026**.
- **18 Ionawr 2027**, os dechreuodd eich cytundeb cyn **1 Ebrill 2014** a'ch bod wedi cwyno erbyn **31 Awst 2026**.

Os ydych yn cwyno ar ôl y dyddiadau hyn, ac nad oes iawndal yn ddyledus i chi, dylai eich benthyciwr roi gwybod i chi o fewn **5 mis** o dderbyn eich cwyn.

Os yw eich benthyciwr yn dweud nad oes iawndal yn ddyledus i chi o dan reolau'r cynllun, neu fod eich achos y tu allan i'r cynllun, a'ch bod yn credu ei fod wedi gwneud camgymeriad, gofynnwch i'ch benthyciwr adolygu ei benderfyniad. Os ydych dal yn anhapus, gallwch gyfeirio eich cwyn at y Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol. Gallwch hefyd ystyried gwneud hawliad drwy'r llysoedd.

Os yw eich cwyn hefyd yn cynnwys materion tu allan i'r cynllun, dylai eich benthyciwr ddweud wrthyh ganlyniad y rhan honno o'ch cwyn os yw'n canfod nad oes iawndal yn ddyledus i chi o dan y cynllun.



Os ydych wedi cofrestru gyda chwmni hawliadau

Nid oes angen i chi ddefnyddio cwmni rheoli hawliadau (CMC) neu gwmni cyfreithiol i hawlio iawndal – mae gwbyodaeth am sut i gwyno ar gael am ddim ar wefan yr FCA.

Peidiwch â chofrestru gyda mwy nag un CMC neu gwmni cyfreithiol. Gall hyn oedi eich iawndal a golygu bod yn rhaid i chi dalu ffioedd lluosog. Os ydych chi wedi gwneud hyn, penderfynwch a ddylid hawlio'n uniongyrchol neu barhau gydag un cynrychiolydd, a dywedwch wrth eich benthyciwr a'ch cynrychiolwyr sut rydych chi am fynd ymlaen.

Os ydych wedi cofrestru gyda CMC neu gwmni cyfreithiol ac yn awr yn dymuno canslo, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi dalu ffi. Rhaid i'r ffi honno fod yn rhesymol ac adlewyrchu'r gwaith a wnaed. Mae'r rhan fwyaf o hawliadau cyllid

modur yn dal i fod yn y cyfnod cynnar, felly gwiriwch unrhyw gais am ffi yn ofalus iawn.

Rydym wedi gweld arfer gwael gan rai cwmnïau hawliadau. Os ydych chi'n anhapus gyda sut mae CMC neu gwmni cyfreithiol wedi trin eich achos, cwynwch yn uniongyrchol i'r cwmni yn gyntaf. Os nad yw'n cael ei ddatrys, gallwch gwyno i'r Ombwdsman perthnasol. Rydym wedi creu llythyr templed (doc) i'ch helpu.

Os ydych yn credu eich bod wedi cael eich cofrestru heb ganiatâd, eich camarwain neu eich trin yn annheg, gallwch ofyn am adael eich cytundeb am ddim. Efallai y bydd iawndal yn ddyledus i chi hefyd gan y CMC neu gwmni cyfreithiol. Os nad yw'r CMC neu gwmni cyfreithiol wedi dilyn y gyfraith wrth ymdrin â'ch achos neu'ch data, efallai na fydd ffioedd yn briodol.



Mynd a'ch cwyn i'r llys

Gallwch hefyd fynd â'ch cwyn i'r llys. Os ydych chi'n ystyried yr opsiwn hwn, dylech feddwl am gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Mae mynd â chwyn i'r llys yn fwy cymhleth ac yn llai sicr. Ar ôl ffioedd cyfreithiol, gallech gael llai.



Dylai eich benthyciwr, neu gwmni rheoli hawliadau neu gwmni cyfreithiol os ydych yn defnyddio un, eich diweddarau. Gallwch hefyd ddarganfod mwy ar fca.org.uk/carfinance